**PWYLLGOR BUSNES**

# ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR GYNIGION I NEWID RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNULLIAD YN UNOL Â RHEOL SEFYDLOG 26.1

## Rhagarweiniad

Fel rhan o'r prosiect ehangach sy'n edrych ar is-ddeddfwriaeth, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid ystyried symleiddio a diwygio Rheol Sefydlog 22.

Sefydlwyd gweithgor dan gadeiryddiaeth Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr oedd yn cynnwys cynghorydd cyfreithiol y Llywydd, Clerc a chynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau, a chynrychiolwyr o Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet a dau o'r is-adrannau polisi.

## Adroddiad y Gweithgor

Adroddodd y Gweithgor yn ôl i'r Pwyllgor Busnes ar yr wythfed ar hugain o Orffennaf. Daethpwyd i'r casgliad mai bach iawn o le oedd yna i ddiwygio Rheol Sefydlog 22 gan ei fod yn adlewyrchu darpariaethau statudol a eglurir yn Neddf Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, awgrymwyd ailddrafftio Rhan Dau er mwyn ei wneud yn fwy dealladwy – er hyn, y mae lawer yn hirach bellach gan ei fod yn egluro'r gwahanol fathau o ddeddfwriaeth a gweithdrefnau seneddol. Yn ogystal â hyn, cynigiodd y gweithgor Ran newydd er mwyn delio â math o ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn Neddf Llywodraeth Cymru, ond nad oedd wedi ei chynnwys cyn hyn yn RhS22. Ni newidiwyd y Rhannau eraill.

Hefyd, awgrymodd y grp y dylid rhannu rhannau cyfansoddol Rheol Sefydlog 22 gan droi pob un ohonynt yn rheol sefydlog ar wahân.

## Newidiadau

Mae'r rheolau sefydlog newydd a fyddai'n cymryd lle RhS22 yn amgaeedig. Dangosir y newidiadau ochr yn ochr â throednodiadau eglurhaol.

Y newidiadau allweddol yw RhS23 (Rhan 2 gynt), sydd, fel y dywedwyd eisoes, wedi ei ailddrafftio’n llwyr, a RhS24 newydd. Y newidiadau allweddol eraill yw:

- 22.11 – peidio â chyfeirio at sylw’r Cabinet y Gorchmynion hynny sy’n ddibwys o ran goblygiadau ariannol (mae hyn yn adlewyrchu Deddf Llywodraeth Cymru).

- 22.26 dileu brys a rhoi "gweithrediaeth" yn ei le.

**Argymhelliad y Pwyllgor Busnes**

Mae holl aelodau'r Pwyllgor wedi cytuno ar y cynigion, ac fe'u cymeradwyir i'r Cynulliad. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid ymgynghori ynghylch y cynigion hyn â phob Aelod. Nid oedd sylwadau o sylwedd wedi dod i law erbyn diwedd mis Medi. O ganlyniad, mae’r Pwyllgor Busnes yn cymeradwyo newid Rheol Sefydlog 22 yn Rheolau Sefydlog 22 – 30 ac ailrifo’r rheolau canlynol.

**Y Pwyllgor Busnes**

**Hydref 2000**